

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/07/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Iwan Hughes
Rhodri Ellis Owen

Barbra Warren
Greta Hughes

Thomas Victor Jones
D Andrew Parry

William Roger Jones
Rhian Hughes-jones
Clerc

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan John Brinley Jones ac Evan Glyn Thomas.

Croesawu David Andrew Parry i ymuno a'r Cyngor Cymuned yn dilyn ei gais llwyddiannus. Mae Andrew Parry yn arwyddo datganiad derbyn swydd.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Iwan Hughes – Ceisiadau Cynllunio C19/0673/38/LL & C19/0670/38/CR – Gwietho yn Plas Glyn y Weddw

3. Cofnodion 24/06/2019

Yn dilyn trafodaeth cynigir William Roger Jones (eilydd: Rhodri Owen) eu bod yn gywir. Derbyn Cofnodion 24/06/2019 yn gywir ac wedi eu harwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- Anfoneb wedi ei dderbyn gan Dei Russell am waith torri gwair £2085.00. Cytunwyd i dalu'r anfoneb.
- Gwahoddiad wedi ei dderbyn gan y RAF i ddiwrnod agored yn Y Fali. Nid oes unrhyw ddiddordeb ymysg y pwyllgor i fynychu.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn cais i osod mainc cofeb yw ddiweddar ŵr gan Mrs Coventry o Ryd y Clafdy. Mae'r pwyllgor yn awyddus i adnewyddu meinciau sydd wedi dirywio ar Lon Pin. Cynigwyd edrych ar feinciau plastig wedi ei ailgylchu. Bydd y clerc yn cysylltu gyda Mrs Coventry ac yn trefnu pwrcasu mainc briodol.
- Nodwyd bod llwybrau yn gôr dyfu; penderfynwyd cysylltu gydag Andrew Pozzi i dorri'r llwybrau. (Yr Ysgol ac allt Pen Bryn).
- Mae Barbra Warren yn nodi fod yr Ysgol Feithrin wedi ennill grant o £7000 gan Gyngor Gwynedd I wneud gwaith yn neuadd. Mae'r Ysgol Feithrin yn gobeithio cael tŷ bach gyda sleid yn y cefn a ffens newydd i'r cefn ac i flaen y neuadd.

Yn absenoldeb Pwyllgor y Neuadd mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno i'r gwaith yma cael ei wneud yn ddarostyngedig i gadarnhad gan adran priffyrdd Cyngor Gwynedd a chynlluniau priodol yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Cyngor Cymuned.

5. Blodau

Nodwyd bod angen trefnu potiau blodau ar frys. Mae Greta Hughes yn cynnig I Victor Jones (eilydd: Barbra Warren) weithio gyda chanolfan y Gwystl. Mae Victor Jones yn cytuno i drefnu gyda Chanolfan y Gwystl i wneud y gwaith. Mae trafodaeth helaeth am gyflwr y potiau ac mae'r pwyllgor yn awyddus i drefnu potiau newydd ar gyfer 2020 -2021.

Bydd y Clerc yn ymchwilio i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio casgenni plastig wedi eu hailgylchu. Bydd angen 10 casgen newydd.

6. Cytundeb Toiledau

Mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno i arwyddo Cytundeb 2019-2021 gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu toiledau.

Mae'r Clerc yn nodi nad yw wedi derbyn cyfraniad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am flwyddyn 2018-2019.

Bydd yn dilyn i fynnu ar hyn ac yn gyrru anfoneb am flwyddyn 2019-2020.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/07/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

7. Cae chwarae

Diweddariad gan Barbra Warren; Nid oes gyfarfod Pwyllgor Cae Chwarae wedi bod. Nodwyd nad yw'r gwaith ar y ffens eisoes wedi ei wneud. Mae'r sefyllfa yn bryderus iawn a bydd angen gweithredu cyn gynted a bod modd.

8. Y Fynwent

Mae materion wedi eu codi ynglŷn â thaliadau'r fynwent yn dilyn yr archwiliad mewnol. Bydd o ddefnydd cael copi o'r contract gwreiddiol sydd yn ymwneud a'r rhodd a derbynwyr er gweithredu. Nodwyd bod y cyfrif wedi ei ddal yn Natwest ac mae Rhodri Owen yn barod i roi cymorth i'r Clerc cael mynediad i'r cyfrif yma a gweithredu yn briodol.

9. Cofebion

Nid oes diweddariad ar gofebion eto. Penderfynwyd gyrru eto i'r holl bartïon yn y post y tro yma. Bydd y Clerc yn gweithredu ac yn adrodd yn ôl.

10. Awdit

Mae Cyngor Gwynedd bellach wedi rhyddhau dogfennau'r archwiliad mewnol yn dilyn derbyn gwybodaeth am gyfrif ariannol ychwanegol. Rhodd oedd yr arian yma i warchod bedd unigolyn. Mae'r adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor gyda'r Clerc yn ei darllen. Mae Victor Jones yn cynnig (eilydd: Andrew Parry) arwyddo'r ddogfennaeth a'i yrru ymlaen i'r BDO.

Gweler Adroddiad **ATODIAD 1**

11. Parcio

Mae ceir wedi bod yn parcio ar waelod lôn y traeth. Mae llinellau melyn yno ac mae plismon bellach wedi bod i lawr yno. Nodwyd y buasai'n syniad da hysbysebu Cyngor Gwynedd o bryderon y Cyngor Cymuned.

Ceisiadau Cynllunio

C19/0670/38/CR

Dymchwel lolfa haul a cegin presennol a chodi caffi a cegin newydd, nghyd ag addasiadau i gefn yr adeilad i wella mynediad a darpariaeth toiledau.

Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad

C19/0673/38/LL

Gosod ffenestr math gromen yn y to a codi lefel rhan o'r grib a newid defnydd cyn feddygfa yn anecs.

Glennydd, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

Brys - C19/0672/38/LL

Dymchwel lolfa haul a cegin presennol a chodi caffi a cegin newydd, nghyd ag addasiadau i gefn yr adeilad i wella mynediad a darpariaeth toiledau.

Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/07/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Brys - C19/0706/38/LL

Codi estyniad unllawr cefn.

10 Tyn Y Pwll Estate, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y clerc - Rhian Hughes-Jones Gorffennaf 2019 £333.33	£333.33
Cyngor Gwynedd – Cytundeb toiledau 2019-2020	£2000.00
GDPR/Data Protection Act 2018 - tanysgrifiad	£40.00
Dei Russell – Torri Gwair	£2085.00

Taliadau wedi eu Gwneud

Dim **£0.00**

Taliadau wedi eu Derbyn

J A Owen - Angladd **£145.00**

Pendefynwyd holi Cyngor Gwynedd am fwy o fanylon am yr anfoneb am £220.80 'Rechargeable Works'.

Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol Estynedig
2. **Specialist Parish Protect insurance** - Yswiriant ar gyfer eich Cyngor Cymuned
3. **Cyngor Gwynedd** - Arolwg Dosbarthiadau a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol)
4. **Gofal Cymdeithasol Cymru** - Gofalu trwy'r Gymraeg
5. **Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019** – Diolch
6. **Owain Watkin Hughes** – Holiadur
7. **Priffyrdd Cyngor Gwynedd**- Rhybudd - Cau Rhan o Ffordd y B4413, Mynytho
8. **Llywodraeth Cynru** - Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus
9. **Llyn Arts festival** – Diolch
10. **Un Llais Cymru** - Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru 05/10/19
11. **Heneiddio yn Dda yng Nghymru** - Holiadur
12. **Un Llais Cymru** - Digwyddiadau Ymgynghori - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa.
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru.
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
Mae William Roger Jones yn cynnig (eilydd: Andrew Parry) cysylltu gyda'r ysgol i gadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol ac yn barod i gyfrannu.
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •